

Cofnodion



Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Pobl

Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2023

Amser: 10.00 am

Bresennol: Cynghorwyr W Routley (Cadeirydd), J Cleverly, C Townsend, B Davies, P Drewett, D Jenkins, M Al-Nuaimi, R Howells and D Mayer

Samantha Schanzer (Cyngorydd Craffu), Sarah Davies (Deputy Chief Education Officer), Sarah Morgan (Chief Education Officer), Katy Rees (Assistant Head of Education - Inclusion), Deborah Weston (Assistant Head of Education - Resources) and Kath Bevan (Assistant Head of Education - Engagement & Learning)

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr P Bright

1 Ymddiheuriadau

Y Cyngorydd P Bright

2 Datganiadau o ddiddordeb

Dim.

3 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nododd y Pwyllgor fod anghysondeb gyda'r presenoldeb a gofnodwyd.

Derbyniwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2023 yn gofnod gwir a chywir.

4 Adroddiad Diwedd Blwyddyn - Gwasanaethau Addysg 2022-23

Nododd y Pwyllgor gamgymeriad yn y geiriad yn yr adroddiad a nododd mai'r 2023-23 ydoedd yn hytrach na 2023-24.

- Cytunodd y Prif Swyddog Addysg y dylid cywiro hyn.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Addysg a'r Dirprwy Brif Swyddog Addysg yr adroddiad.

Cwestiynau:

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar beth oedd y saith blaenoriaeth strategol o'u cymharu â'r saith dimensiwn mewn addysg a grybwyllir yn yr adroddiad.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English. Nododd y Prif Swyddog Addysg fod y saith blaenoriaeth strategol yn deillio o'r Cynllun Corfforaethol sydd wedyn yn bwydo i mewn i Addysg megis mewn cyrhaeddiad a chyflogadwyedd.

Amlygodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg ymhellach y ffocws rhwng cysylltu addysg â gwaith cyffredinol y Cyngor.

Cydnabu'r Prif Swyddog Addysg y dryswch a sicrhodd y Pwyllgor y byddai'n cael ei egluro yn yr adroddiad.

Gofynnodd y Pwyllgor am ragor o wybodaeth am Ysgol Millbrook.

Amlygodd y Prif Swyddog Addysg mai dros dro yn unig yw'r symud o Millbrook i Frynglas a nododd nad oes modd rhoi llinell amser ar y sefyllfa gan fod yn rhaid ystyried opsiynau.

Amlygodd y Prif Swyddog Addysg nad oedd y gwaith hwn wedi'i sefydlu yn y rhaglen gyfalaf ond roedd yn cadarnhau bod gweithio'n mynd rhagddo ar y safle.

Mynegodd y Prif Swyddog Addysg ddealltwriaeth o bryderon y rhai yr effeithiwyd arnynt gan y sefyllfa.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y cysylltiad rhwng ysgol cyfrwng Cymraeg newydd a safle Whitehead.

Dywedodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Adnoddau wrth y Pwyllgor fod ysgol gynradd newydd yn cael ei chodi ar safle Whitehead, gyda'r gwaith yn cychwyn ar 17.07.23.

Nododd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol - Adnoddau ymhellach y bydd y safle hwn wedyn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer myfyrwyr Pilgwenlli gydag ysgol Pilgwenlli wedyn yn cael ei defnyddio fel yr ysgol Gymraeg.

Gofynnodd y Pwyllgor pa mor bell oedd ysgol gynradd Millbrook o allu cyflwyno opsiynau i'w hystyried.

Nid oedd y Prif Swyddog Addysg yn gallu darparu unrhyw ddiweddariad pellach a chadarnhaodd nad yw'r myfyrwyr wedi cael eu heffeithio o ran safonau ac ansawdd addysg. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg fod Swyddogion hefyd yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r Llywodraethwyr a'r rhieni.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynglŷn â'r ystadegyn a ddywedodd fod sgiliau iaith Gymraeg uwch gan 3% o staff a chwestiynu a oedd hyn yn cynnwys staff cyfrwng Cymraeg.

Cadarnhaodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Adnoddau wrth y Pwyllgor fod hyn yn canolbwyntio ar aelodau staff addysg canolog, nid gweithwyr ysgolion.

Gofynnodd y Pwyllgor am nifer y staff Cymraeg a'r cynnig i wella nifer y staff sy'n siarad Cymraeg.

- Nododd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg eu bod yn rhagweithiol wrth recriwtio staff Cymraeg yn ogystal â hyrwyddo dysgu'r Gymraeg drwy fecanweithiau a ddarperir gan Adnoddau Dynol.

▫ Nododd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg ymhellach ei fod yn flaenoriaeth i hyrwyddo defnydd Cymraeg gan staff addysg.

Nododd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg y byddai'n cymryd amser i weld newidiadau ynghylch hyn gan fod y cynllun yn rhychwantu 10 mlynedd.

Teimlai'r Pwyllgor fod angen cefnogi'r adroddiad gyda gwybodaeth a oedd yn dangos sut y cafodd y 60% Coch, Oren Gwyrdd ei gyflawni.

- Nododd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg eu bod yn gweithio o fewn meini prawf i gynhyrchu'r niferoedd hyn felly er bod 60% o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau o fewn y ffrâm honno, efallai na fydd effaith y camau hynny yn cael eu teimlo 60%.

Gofynnodd y Pwyllgor am enghraifft o adolygiad gweithredu cyflym.

- Dwedodd y Prif Swyddog Addysg wrth y Pwyllgor y gallai'r adolygiadau hyn fod yn adolygiad o unrhyw ddarpariaeth tîm neu wasanaeth fel ADY ac ati a bod yr adolygiadau'n canolbwyntio ar unrhyw gryfderau neu wendidau yn ogystal â helpu'r rhai yn yr adolygiad i ddeall a yw'r cynlluniau gwaith a gwasanaeth yn gywir i'w sefyllfa bresennol.

▫ Amlygodd y Prif Swyddog Addysg ymhellach fod gan y tîm ADY arfer da o ran goruchwyliaeth a oedd o ganlyniad yn cael ei ddefnyddio ar draws y gwasanaeth.

Nododd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg eu bod yn adolygiad traws-wasanaeth gydag arweinwyr tîm eraill yn eistedd ar y panel adolygu. Amlygwyd hefyd ei fod yn adolygiad arfer gorau.

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd hyn yn cynnwys yr ysgolion eu hunain.

▫ Nododd y Prif Swyddog Addysg fod staff ysgolion yn gysylltiedig â'r broses, ond mae'n canolbwyntio mwy ar y tîm corfforaethol.

▫ Nododd y Prif Swyddog Addysg fod yr adolygiadau cyflym yn digwydd un y tymor.

Nododd y Prif Swyddog Addysg y ffocws i bob rheolwr adran a thîm fod yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ym maes y gwasanaeth.

Dwedodd y Prif Swyddog Addysg wrth y Pwyllgor eu bod yn gweithio o fewn y syniad, os nad yw rhywbeth yn gweithio, y dylid ei newid ac o gadw pethau'n syml.

Holodd y Pwyllgor a oedd diweddariad ar yr uned cyfeirio disgyblion (UCD).

- Amlygodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Ymgysylltu a Dysgu fod y ffocws ar gefnogi nid yn unig ddysgwyr yr UCD, ond pob dysgwr trwy system haenog sy'n seiliedig ar angen. Hysbysodd y Pennaeth Cynorthwyol fod dull cyffredinol, dull mwy targedig a welodd fentoriaid Plant sy'n Derbyn Gofal yn ymgysylltu ar sail 1-1 neu grŵp bach, a chynnig pwrpasol ar gyfer y grŵp llai o achosion mwy cymhleth.
- Nododd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Ymgysylltu a Dysgu fod plethiad a chymysgedd o hyd mewn myfyrwyr o'r tu allan i Gasnewydd fel plant dan oed ar eu pen eu hunain a myfyrwyr o siroedd cyfagos.

Gofynnodd y Pwyllgor beth oedd yn cael ei wneud er mwyn gwneud ysgolion yn fwy diogel, yn ogystal ag ymholi am weithdrefnau cloi ysgolion ac a oedd adolygiadau cyflym yn digwydd ynglŷn â hyn.

- Nododd y Prif Swyddog Addysg, er eu bod yn falch o'r data gwaharddiadau y maent wedi'u cyflwyno, ei bod yn bwysig ailintegreiddio plant i mewn i ysgolion er mwyn osgoi eu difreinio neu eu cynhyrfu. Nododd y Prif Swyddog Addysg hefyd fod rhaid cydbwysu hyn yn erbyn parchu athrawon a'u proffesiwn, a oedd yn golygu bod angen gwahardd parhaol mewn rhai achosion.
- Nododd y Prif Swyddog Addysg fod staff yn cyfarfod â phartneriaid undeb ac ar sail mwy agos atoch yn rheolaidd er mwyn cael gwybodaeth a thrafod trais mewn ysgolion yn effeithiol. Nododd y Prif Swyddog Addysg hefyd fod gan athrawon yr hawl i gofnodi materion a dylid casglu data i edrych ar unrhyw batrymau neu dueddiadau mewn ysgolion penodol a ledled yr Awdurdod Lleol y dylid ymateb iddynt yn unol â hynny.
Dwedodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Cynhwysiant wrth y Pwyllgor bod cefnogaeth amlasiantaeth i fynd i'r afael â materion mawr ar ddiogelwch i'r myfyrwyr dan sylw a'r ysgolion. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol fod systemau ar waith pe bai yn a ddigwyddiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadolygu pan fyddant yn digwydd.
- Nododd y Prif Swyddog Addysg ei bod yn ofynnol i ysgolion ysgrifennu eu cynlluniau brys eu hunain ac adolygiad o gynlluniau brys ac weithiau nid cyfnod cloi i'r ysgol yn unig yw'r cynllun brys, ond gallai olygu symud pobl allan o'r ysgol.
- Amlygodd y Prif Swyddog Addysg eu bod wedi gofyn i ysgolion gynnal cloi ffug, gyda'r ffocws ar beidio â dychryn plant pan fydd cyfnodau cloi ffug yn digwydd, yn ogystal â gallu adolygu'r mesurau cloi ffug.
Nododd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg fod angen ystyried cyfnodau cloi yn debyg i ddriliau tân er mwyn lleihau braw pan fyddant yn digwydd.
Nododd y Prif Swyddog Addysg mai cynllunio wrth gefn sifil yw'r cysylltiadau i droi atynt mewn argyfwng.
Y Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Ymgysylltu a Dysgu caiff yr holl ddata eu dadansoddi i weld unrhyw batrymau neu dueddiadau o fewn y data a allai fod yn ddefnyddiol.
Dwedodd y Prif Swyddog Addysg wrth y Pwyllgor bod penaethiaid yn cael eu hannog i roi adborth i'r Awdurdod Lleol a phenaethiaid eraill pe bai yna ddigwyddiad i fanlyu ar yr hyn a aeth o'i le a beth aeth yn iawn.

Roedd y Pwyllgor am iddo gael ei nodi ei fod yn anfon ei ddymuniadau gorau i'r rhai yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiadau diweddar yn Academi Tewksbury.

Holodd y Pwyllgor a ddylid defnyddio dull cyfannol i helpu myfyrwyr sydd mewn perygl.

Nododd y Prif Swyddog Addysg fod gwaith yn cael ei wneud gyda'r Gwasanaethau Ataliol sy'n ymchwilio i'r materion hyn yn ogystal â'r tîm Cyfiawnder Ieuencid.

Amlygodd y Prif Swyddog Addysg na ddylai ysgolion ar eu pennau eu hunain orfod delio â'r materion hyn.

Nododd y Prif Swyddog Addysg fod yn well holi'r cwestiwn o ran adnoddau wrth benaethiaid gwasanaethau eraill.

Gofynnodd y Pwyllgor ai cyfrifoldeb yr ysgolion oedd arwain ar waharddiad a chymorth myfyrwyr ac a oedd gan yr Awdurdod Lleol yr adnodd i gefnogi.

- Cadarnhaodd y Prif Swyddog Addysg, er mai cyfrifoldeb yr ysgolion ydyw, ni all yr ysgol fod yn bopeth i bawb, a dyma pam fod cefnogaeth gan wasanaethau eraill mor bwysig.

Amlygodd y Pwyllgor fod ysgolion yng Nghasnewydd yn gwneud gwaith gwych wrth helpu eu myfyrwyr gyda lles meddyliol.

- Nododd y Prif Swyddog Addysg fod ysgolion yn cael eu cefnogi gyda'r baich mawr o helpu myfyrwyr ym mhob ffordd.

Nododd y Pwyllgor eu cefnogaeth i'r holl staff addysgol a'r gwaith y maent yn ei wneud.

Holodd y Pwyllgor pa ystod oedran sy'n cwmpasu'r term "pobl ifanc".

- Nododd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Ymgysylltu a Dysgu bod hyn yn cael ei ddefnyddio gan fod term cyffredinol ac yn cynnwys y rhai o fewn addysg o dan 18 oed.

Holodd y Pwyllgor ar wahân i GEM, pa addysg sydd ar gael i blant dan oed ar eu pen eu hunain.

- Amlygodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Ymgysylltu a Dysgu, unwaith y bydd y gwaith papur wedi'i gwblhau, eu bod yn ystyried eu profiadau blaenorol ac yn helpu i'w cefnogi ar y llwybr a ddymunir. Nododd y Pennaeth Cynorthwyol ei fod yn cael ei arwain gan y dysgwyr, a chan fod llawer yn gwybod am eu cyrchfan addysgol dymunol, mae'n helpu i sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar y cymwysterau cywir.

Gofynnir i'r Pwyllgor a yw Hwb ar gael i'r holl ysgolion.

- Nododd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg fod gan bob ysgol fynediad ato hyd yn oed y rhai y tu allan i'r cytundeb gwasanaeth fel y manylir gan Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd y Pwyllgor pam nad ydyn nhw wedi cyrraedd y targedau NEET (ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant).

- Eglurodd y Prif Swyddog Addysg fod y cyflawniad yn foddhaol gan eu bod wedi rhagori ar gyfartaledd Cymru ac wedi gwella ar y flwyddyn flaenorol, ond oherwydd bod y targed yn nod uchelgeisiol, pan na chaiff ei gyflawni, mae'n ymddangos fel oren.
- Sicrhodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Pwyllgor Ymgysylltu a Dysgu fod taenlenni trylwyr yn cael eu cadw i sicrhau yr eir ar ôl myfyrwyr o flynyddoedd 10-13, a bod eu systemau'n gadarn ac yn arwain y sector.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r model addysg newydd gael ei egluro.

- Amlygodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg fod model canllawiau newydd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwella ysgolion wedi dod allan ychydig flynyddoedd yn ôl ac mae bellach yn statudol gyda'r ffocws ar gefnogi ysgolion.
 - Nododd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg fod gwella ysgol yn ymagwedd haenog ar draws y rhanbarth.
 - Nododd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg hefyd fod ymgynghorydd ysgol sy'n helpu i werthuso ysgol ac sy'n rôl sydd wedi newid enw.
 - Amlygodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg fod ysgolion partner gan rai ysgolion er mwyn cefnogi ei gilydd i wella.
 - Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog Addysg fod yr holl waith a amlygir yn seiliedig ar gynllun datblygu'r ysgol.

Nododd y Pwyllgor wall teipio ar dudalen 48 o agenda 20222 a 2024, a dylai'r ddau fod yn 2022.

- Dwedodd y Pennaeth Addysg Cynorthwyol – Adnoddau wrth y Pwyllgor fod gan y cynllun CSGA gynllun gweithredu cysylltiedig a oedd wedyn wedi'i fewnosod yn y cynllun 10 mlynedd.
- Cytunodd y Prif Swyddog Addysg y dylid cywiro gwallau teipio.

Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn gadarnhaol ac yn addysgiadol a gofyn a ddylai'r adroddiad gael adran ar yr adborth gan ysgolion.

- Nododd y Prif Swyddog Addysg fod hyn yn digwydd yn flynyddol gyda'r adborth gwybodaeth a gafwyd gan yr ysgolion.
Rhoddodd y Prif Swyddog Addysg enghraifft lle roedd ysgolion wedi rhoi adborth i siarad â NORSE gyda hyn yn cael ei drefnu.
Amlygodd y Prif Swyddog Addysg nad yw'n bosibl cynnwys adborth yn yr adroddiad corfforaethol, ond gall y swyddogion gyflwyno adborth blaenorol i'r Pwyllgor.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Swyddogion, eu timau a staff yr ysgol am eu gwaith caled parhaus.

Amlygodd yr Aelod Cabinet y berthynas gadarnhaol iawn rhwng CDC a'r ysgolion eu hunain.

5 **Casgliad Adroddiadau Pwyllgorau**

Roedd y Pwyllgor yn fodlon â'r adroddiad a diolchodd i'r swyddogion am yr adroddiad a'u gwaith caled parhaus.

Nododd y Pwyllgor y gwallau teipio dyddiad trwy'r adroddiad a gofynnodd am gywiro'r rhain.

Gofynnodd y Pwyllgor i'r 7 Dimensiwn a'r 7 Blaenoriaeth Strategol gael eu hegluro fel rhai ar wahân a gwahanol yn yr adroddiad.

Roedd y Pwyllgor eisiau lleisio ei bryderon ynghylch trefniadau llety dros dro yn Ysgol Millbrook a gofynnodd i'r mater gael ei ddatrys cyn gynted â phosibl. Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad ynghylch Millbrook, ei sefyllfa ac a yw opsiynau wedi'u cyflwyno/derbyn erbyn diwedd y flwyddyn.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cynnwys adborth ysgolion, rhieni a disgyblion yn yr adroddiad.

6 **Adroddiad Cyngorydd Craffu**

Dwedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor fod y tabl camau gweithredu bellach yn glir a bod yr holl wybodaeth wedi'i darparu.

Nododd yr Ymgynghorydd Craffu nad oedd dyddiadau nac eitemau wedi newid yn y Flaenraglen Waith.

Dwedodd yr Ymgynghorydd Craffu wrth y Pwyllgor mai dyddiad y cyfarfod nesaf oedd y 25 Gorffennaf 2023.

7 **Digwyddiad Byw**

[Cliciwch yma i wyllo'r recordiad.](#)

Daeth y cyfarfod I ben am Time Not Specified